



# Heriau Wystrys

## Yr offer sydd ei angen

- Copi o'r daflen waith 'Heriau Wystrys' ar gyfer pob dysgwr (2 dudalen)
- Pensiliau neu feiros
- Dyfeisiau y gellir eu defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd

## I gwblhau'r gweithgaredd

1. Rhannwch gyflwyniad 'A history of the native oyster in Wales' gyda dysgwyr - [www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol](http://www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol) (Adnodd 3).
2. Rhannwch y ddolen ganlynol â dysgwyr a gofynnwch iddynt nodi lle gellir dod o hyd i wystrys brodorol yng Nghymru - [www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol](http://www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol) (Adnodd 4). Trafodwch yr amodau cynefin sydd eu hangen er mwyn i wystrys brodorol oroesi. Efallai y bydd dysgwyr yn dymuno defnyddio taflen ffeithiau 'The Wild Oyster' i gefnogi eu hymchwil - [www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol](http://www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol) (Adnodd 5).
3. Rhowch daflen waith 'Her Wystrys' i bob dysgwr.
4. Anogwch y dysgwyr i ddatrys yr heriau a thrafod eu strategaethau a'u dulliau gyda phartner.
5. Rhowch amser i'r dysgwyr fyfyrto ar y canlynol a chreu eu cwestiwn wystrys eu hunain:
  - Pa gwestiwn oedd fwyaf heriol? Pam?
  - Pa sgiliau newydd y gwnaethon nhw eu defnyddio neu ddysgu yn y gweithgaredd hwn?

## ATEBION

- |                                               |                                                              |
|-----------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|
| 1. $8 \times 12 = 96$ wystrys                 | 7. $14 \times 6 = 84 \text{ m}^2$ (metr sgwâr)               |
| 2. $2.5 \times 4 = 10 \text{ cm}$             | 8. $72 / 8 = 9$ wystrys                                      |
| 3. $200 \times 6 \times 7 = 8400$ litr        | 9. $0.40 \times 250 = 100$ wystrys                           |
| 4. $250 \times 15 = 3750$ grams (neu 3.75 kg) | 10. $100 / 20 = 5$ ; $5 \times 15 = 75$ munud (1 awr 15 mun) |
| 5. $120 / 6 = 20$ wystrys                     | 11. $12 \times 4 = 48$                                       |
| 6. $2(8 + 5) = 2(13) = 26$ metr               | 12. 25, 36 (sgwariau rhifau)                                 |

# Heriau Wystrys



## 1. Cyfrif Wystrys

Mae gan riff 8 rhes o welyau wystrys, ac mae pob rhes yn cynnwys 12 wystrys. Faint o wystrys sydd yno i gyd?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 2. Cyfradd Twf

Mae wystrys yn tyfu 2.5cm bob blwyddyn. Faint o centimetrau y bydd yn tyfu mewn 4 blynedd?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 3. Pŵer Hidlo

Gall wystrys hidlo 200 litr o ddŵr y dydd. Faint o ddŵr y gall 6 wystrys ei hidlo mewn wythnos?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 4. Cyfrifo Pwysau

Os yw un wystrys yn pwyso 250 gram, beth yw cyfanswm pwysau 15 wystrys?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 5. Problem Cyfaint

Mae tanc yn dal 120 litr o ddŵr. Os oes angen 6 litr o ddŵr ar bob wystrys i oroesi, faint o wystrys all fyw yn y tanc?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 6. Perimedwr Gwelyau Wystrys

Mae gwely wystrys yn 8 metr o hyd a 5 metr o led. Beth yw ei pherimedwr?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 7. Arwynebedd Gwely Wystrys

Mae gwely wystrys yn 14 metr o hyd a 6 metr o led. Cyfrifwch arwynebedd y gwely wystrys.

Ateb: \_\_\_\_\_

## 8. Rhannu Wystrys

Mae pysgotwr yn casglu 72 o wystrys ac yn eu rhannu'n gyfartal rhwng 8 ffrind. Faint o wystrys mae pob ffrind yn eu derbyn?

Ateb: \_\_\_\_\_

## 9. Problem Canran

Mae 40% o riffiau wystrys wedi'u difrodi gan lygredd. Os oedd gan y riff 250 wystrys yn wreiddiol, faint o wystrys sydd wedi cael eu heffeithio?

Ateb: \_\_\_\_\_